Pecyn Mathemateg Teulu

# Gweithgareddau Mathemateg i'r Teulu

## Blwyddyn 2

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

National Numeracy
Getting on with numbers

Ariannwyd y gwaith o gyfieithu a dylunio'r adnodd hwn gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU (Prosiect Lluosi).
Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

**Pecyn Mathemateg Teulu**

## Rhagarweiniad

Nod yr adnodd teuluol hwn, sydd wedi'i brofi i fod yn gwella hyder plant a rhieni mewn mathemateg, yw hyrwyddo mwynhad o fathemateg drwy drafod a gweithio gyda'n gilydd ar fathemateg bob dydd.

Mae'r pecyn hwn gan National Numeracy yn cynnwys gweithgareddau byr, hwyliog ar sail 'bywyd go iawn' i deuluoedd eu gwneud gyda'u plant, gyda ffocws cryf ar ddatrys problemau a rhesymu.

Mae'n cynnwys 36 o weithgareddau. Yn y pecyn hwn, maen nhw wedi eu trefnu i fynd yn raddol anoddach – ond gellir eu dewis i gyd-fynd â'r maes cwricwlwm y mae eich plant yn gweithio arno.

Nid yw'r taflenni gweithgaredd unigol yn dangos grŵp blwyddyn nac oed, dim ond codau lliw fel y gallwch ddweud y gwahaniaeth. Dylid nodi bod y lefel yn seiliedig ar ddisgwyliadau cyfartalog ar gyfer y grŵp blwyddyn – gallai'r plant fod yn gweithio ar lefel is neu uwch, felly defnyddiwch weithgareddau o grwpiau blwyddyn eraill os oes angen.

Mae'r pecyn yn cynnwys:

- Trosolwg yn awgrymu sut y gallwch rannu'r gweithgareddau yn ôl tymor ysgol a phwnc rhifedd.
- 36 o weithgareddau, yn y drefn a roddir yn y trosolwg.
- 3 taflen atebion, un i bob tymor (cofiwch fod llawer o'r gweithgareddau wedi eu dylunio i fod yn benagored felly rhoddir atebion ond i weithgareddau sy'n gofyn am ateb).

## Ar gyfer ysgolion

Argymhellwn y dull canlynol i ysgolion sy'n defnyddio'r gweithgareddau:

- Dull dosbarth cyfan neu hyd yn oed ddull ysgol gyfan.
- Os yw'r plant yn gweithio'n uwch neu'n is na'r disgwyliadau ar gyfer eu hoed, dewiswch weithgaredd o grŵp blwyddyn arall.
- Cynnal gweithdy i fodelu trafodaethau'r gweithgareddau i rieni llai hyderus.
- Pwysleisio y gall unrhyw aelod o'r teulu weithio gyda'r plentyn ar y gweithgaredd.
- Os nad oes oedolion yn helpu allan yn y cartref, awgrymwn ddod o hyd i ffrind ysgol hŷn i helpu mewn clwb ar ôl ysgol neu gyn-ysgol.
- Nid oes raid i'r rhiant / gofalwr fod ag unrhyw wybodaeth arbennig am fathemateg neu offer ysgol.
- Annog y plant i fod yn greadigol: tynnu lluniau neu ffotograffau, ysgrifennu cyfrifiadau neu greu diagramau.
- Annog yr oedolyn a'r plentyn i ddefnyddio'r blwch sylwadau i fyfyrio a'ch helpu chi i ddeall beth y maen nhw'n ei feddwl o bob gweithgaredd.
- Arddangos gweithgareddau a gwblhawyd fel bo'r plant a'r teuluoedd yn gallu dysgu oddi wrth ei gilydd nad un ffordd yn unig sydd o ddatrys problem ond sawl ffordd.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
**enquiries@nationalnumeracy.org.uk**

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

## Ar gyfer rhieni a gofalwyr

Sut bynnag y teimlwch am fathemateg, gallwch wneud gwahaniaeth mawr i sut y mae plant yn dysgu rhifedd.

Mae'r dystiolaeth i gyd yn dangos bod siarad am fathemateg pob dydd yn magu hyder plant mewn mathemateg. Dyma rai cwestiynau y gallwch ofyn i'ch gilydd wrth wneud y gweithgareddau:

- Beth sydd angen ei wneud?
- Pa wybodaeth sydd gennym ni? Beth sydd angen ei ddarganfod?
- Fyddai offer yn helpu?
- Beth sylwch chi arno pan...?
- Ddylen ni ddyfalu'r ateb i weld ydy o'n iawn?
- Beth allwn ei wneud os awn yn styc?
- Os byddwn yn gwneud hyn eto, a allen ni wneud rhywbeth yn wahanol?

Gallwch addasu'r gweithgareddau i ddiddordebau eich teulu a defnyddio unrhyw eitemau sydd wrth law, yn y cartref neu'r tu allan iddo.

Gallech dynnu lluniau neu ffotograffau, ysgrifennu cyfrifiadau neu greu diagramau – mae i fyny i chi!

Defnyddiwch y sylwadau i fyfyrio ar eich trafodaethau a meddyliau wrth wneud y gweithgaredd gyda'ch gilydd.



Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

# Trosolwg a Chysylltiadau Cwricwlwm Blwyddyn 2

Pecyn Mathemateg Teulu

| Tymor | Pwnc | Gweithgareddau | Prif Gysylltiad i'r Cwricwlwm | Hefyd yn trafod |
|---|---|---|---|---|
| **Hydref** | **Rhif** – adio a thynnu | Lindys<br><br>Ysgrifennu straeon mathemateg | Odrifau ac eilrifau, adio a thynnu i 20, haneru.<br>Ymarfer darllen, ysgrifennu a chymharu rhifau a datrys amrywiaeth o broblemau er mwyn dod yn rhugl. | |
| | **Rhif** – lluosi a rhannu | Hwyl lluosi gyda chi bach<br><br>Rhannu fferins<br><br>Swyn y wrach | Defnyddio lluosi i ddatrys problemau bob dydd.<br>Cael eu cyflwyno i luosi a rhannu drwy rannu a grwpio gwahanol eitemau'n gyfartal.<br>Defnyddio adio a lluosi i ddatrys problemau.<br><br>Adio arian o'r un uned.<br>Gweithio gyda ac adnabod ysbeidiau amser i'r 5 munud agosaf. | Datrys problemau a gweithio'n systematig i ddod o hyd i'r holl bosibiliadau. |
| | **Mesuriadau** | Tân gwyllt<br>Amcangyfrif amser | Adnabod siapiau 2D ar wyneb siapiau 3D, er enghraifft cylch ar silindr a thriongl ar byramid.<br>Adnabod a disgrifio cymesuredd. | |
| | **Geometreg** – nodweddion siâp | Siapiau 3D | Datrys problemau drwy ddod o hyd i'r holl bosibiliadau. | |
| | **Datrys problemau** | Llythrennau cymesur<br><br>Coblynnod Nadolig | | |

*Mae angen ei argraffu mewn lliw



Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Trosolwg a Chysylltiadau Cwricwlwm Blwyddyn 2

Pecyn Mathemateg Teulu

| Tymor | Pwnc | Gweithgareddau | Prif Gysylltiad i'r Cwricwlwm | Hefyd yn trafod |
|---|---|---|---|---|
| **Gwanwyn** | **Rhif a gwerth lle** | Defnyddio arwyddion mathemateg | Cymharu rhifau'n defnyddio =, < a > | |
| | **Rhif** – adio a thynnu | Rhifau ffôn | Ymarfer adio i ddod yn fwy rhugl. | |
| | **Rhifau** - ffracsiynau | Rhannu pitsas | Adnabod, dod o hyd i, enwi ac ysgrifennu ffracsiynau siâp, cyfres o eitemau neu faint; adnabod bod dau chwarter a hanner yn gyfartal. | |
| | **Mesuriadau** | Yn y siop anifeiliaid anwes<br>Misoedd y flwyddyn<br>Amseroedd o gwmpas y tŷ<br><br>Diwrnod crempog | Adio arian yn defnyddio £.<br>Cymharu ysbeidiau amser a'u rhoi mewn trefn / dilyniant.<br>Dweud ac ysgrifennu'r amser i'r 5 munud agosaf.<br>Defnyddio unedau safonol priodol i gymharu hydoedd a'u rhoi mewn trefn. | Ysbeidiau amser. |
| | **Geometreg** – nodweddion siâp | Tangramau Tsieineaidd<br><br>Patrymau brithwaith | Trin ac enwi amrywiaeth o siapiau 2D a'u hadnabod ar sail eu nodweddion.<br>Cymharu a dosbarthu siapiau geometrig ar sail eu nodweddion a gweithio gyda phatrymau siapiau. | |
| | **Geometreg** – safle a chyfeiriad | Cymesuredd wyau Pasg | Gweithio gyda phatrymau siapiau, gan gynnwys rhai ar ogwyddau gwahanol. | |

*Mae angen ei argraffu mewn lliw

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Trosolwg a Chysylltiadau Cwricwlwm Blwyddyn 2

Pecyn Mathemateg Teulu

| Tymor | Pwnc | Gweithgareddau | Prif Gysylltiad i'r Cwricwlwm | Hefyd yn trafod |
|---|---|---|---|---|
| **Haf** | **Rhif –** adio a thynnu | Gwir neu anwir | Datrys problemau geiriau'n defnyddio adio a thynnu, a defnyddio rhesymu i gyfiawnhau'r ateb. | |
| | | Cyflwyno'r faner | Amcangyfrif, datrys problemau'n defnyddio ffeithiau lluosi a rhannu o dablau 2, 5 a 10. | Dechrau defnyddio tablau 3, 4, 6, 8. |
| | **Rhif –** lluosi a rhannu | Dod o hyd i haneri | Datrys problemau'n defnyddio siapiau ac adnabod hanner a beth sy'n gyfwerth â hanner. | |
| | **Rhif** - ffracsiynau | Chwarteri o gylchoedd | Dod o hyd i ffracsiynau o siapiau a mesurau; cwrdd â ¾ fel ffracsiwn di-uned. | Dechrau cyfrif mewn ffracsiynau. |
| | **Mesuriadau** | Tabledi anifeiliaid | Defnyddio mesuriadau safonol priodol i gymharu a rhoi pwysau (g/kg) mewn trefn. | Datrys problemau gyda haneri; gwella sgiliau amcangyfrif. Cymharu ysbeidiau amser. |
| | | Cŵn | Cymharu a rhoi màs mewn trefn, yn defnyddio unedau safonol priodol. | |
| | | Meddyginiaeth y milfeddyg | Defnyddio unedau safonol priodol i amcangyfrif, mesur, cymharu a rhoi capasiti mewn trefn (l/ml); defnyddio <, > a = | |
| | | Pileri Islam | Gwybod faint o funudau sydd mewn awr a faint o oriau sydd mewn diwrnod; dweud ac ysgrifennu'r amser i'r 5 munud agosaf. | |
| | | Ysgwyd llaw | Gofyn ac ateb cwestiynau syml drwy gyfrif a didol; trefnu a chofnodi'r wybodaeth. | |
| | **Ystadegau** | Yn y sŵ | Coladu, trefnu a chymharu gwybodaeth yn defnyddio pictogramau, siartiau cadw cyfrif, diagramau bloc neu dablau syml. | |

*Mae angen ei argraffu mewn lliw

**familymathstoolkit.org.uk**


Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Lindys

Pecyn Mathemateg Teulu


**Gorffennwch y lindysyn drwy adio 1 os yw rhif yn odrif, neu ei haneru os yw rhif yn eilrif. Daliwch ati nes cyrraedd 1. Mae'r cyntaf wedi'i wneud i chi.**






Allwch chi wneud lindys eich hun?

Yn defnyddio rhifau llai na 20, beth yw'r lindysyn byrraf?

Beth yw'r lindysyn hiraf?




**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Odrifau ac eilrifau, adio a thynnu i 20, haneru.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at: **enquiries@nationalnumeracy.org.uk**

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Ysgrifennu straeon mathemateg

**Pecyn Mathemateg Teulu**

**Mae mathemateg o'n cwmpas ym mhob man! Allwch chi weld enghreifftiau o fathemateg yn eich tŷ ac ysgrifennu stori fathemateg yn defnyddio rhifau? Dyma rai syniadau:**




Mae 5 darn o ffrwyth yn y fowlen. Mae tair banana a dau afal.

Daeth 6 aderyn i'r ardd i fwyta; fe wnaeth 3 hedfan i ffwrdd gan adael 3 ar ôl.

Roedd gen i 25 darn o frics adeiladu i adeiladu tŷ. Dim ond 14 a ddefnyddiais felly rhoddais 11 yn ôl yn y bocs.

Beth am gael hwyl gyda straeon doniol yn defnyddio rhifau!



**Her:** Allwch chi ysgrifennu stori fathemateg gyda chwestiwn?

**Sylwadau teulu:**

| |
|---|
| |

**Sylwadau plentyn:**

| |
|---|
| |

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Ymarfer darllen, ysgrifennu a chymharu rhifau a datrys amrywiaeth o broblemau er mwyn dod yn rhugl.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Hwyl lluosi gyda chi bach

Pecyn Mathemateg Teulu

**Mae cŵn bach yn chwarae ar y traeth.**

**Mae gan bob ci bach 1 gynffon yn siglo, 1 trwyn gwlyb, 2 glust lipa, 2 lygad bywiog, 4 coes hir a 5 ewin byr ar bob troed.**

Mae 10 ci bach ar y traeth – faint o goesau hir? Trwynau gwlyb? Clustiau llipa?

Mae 5 ci bach yn chwarae pêl – faint o gynffonnau'n siglo? Coesau hir? Llygaid bywiog?

Mae 2 gi bach yn gwneud twll! Faint o ewinedd byr?

**Her:** Allwch chi feddwl am fwy o gwestiynau ar gyfer y cŵn bach ar y traeth?

**Gair o gyngor:** Mae tynnu llun y cŵn bach yn helpu i weld beth i'w adio neu luosi.

*Wedi'i addasu o 'Real life problems for 7-11 year olds' gan y Dogs Trust.*

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Defnyddio lluosi i ddatrys problemau.



Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Rhannu fferins

Pecyn Mathemateg Teulu


**Yn y cwpwrdd mae bag o 6 loli, bag o 4 siocled a bag o 10 taffi.**




Sut allai'r rhain gael eu rhannu'n deg rhwng 4 ffrind?

Allwch chi feddwl am ffordd arall?

**Her:** Pe bai dau o bob bag, a fyddai'n haws eu rhannu?





**Gair o gyngor:** Gallech ddefnyddio cownteri neu eitemau bach eraill yn lle fferins, neu dynnu lluniau i helpu plant i ddeall.

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Cael eu cyflwyno i luosi a rhannu drwy rannu a grwpio gwahanol eitemau'n gyfartal.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Swyn y wrach

Pecyn Mathemateg Teulu


**Mae angen swynfwyd 24 coes ar y wrach i droi ei hathrawes yn llyffant. Mae ganddi bryfed cop (8 coes), genau goegiaid (4 coes) ac ystlumod (2 goes)**




Meddyliwch am wahanol swynau i droi ei hathrawes yn llyffant!

Meddyliwch am swyn eich hun ar gyfer aelod o'r teulu!





**Gair o gyngor:** Er enghraifft – beth am 2 bryf cop, 1 genau goeg a 2 ystlum!



**Her:** Mae angen swynfwyd 32 coes ar y wrach i droi'r pennaeth yn llyffant. Pa swynau allai eu defnyddio'r tro hwn?

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Defnyddio adio a lluosi i ddatrys problemau; gweithio'n systematig i ddod o hyd i'r holl bosibiliadau.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Tân gwyllt

Pecyn Mathemateg Teulu

**Dowch o hyd i ddarnau arian i brynu tân gwyllt.**


Dewiswch ddau fath o dân gwyllt a gweld faint fyddan nhw'n ei gostio.
Gwnewch yr un fath gyda gwahanol dân gwyllt.




**15p**



**35p**



**10p**



**25p**



**30p**

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
**enquiries@nationalnumeracy.org.uk**

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669


National Numeracy
Getting on with numbers


Pa dân gwyllt allech chi ei brynu gydag union £1.00?



45p

20p





40p

30p



**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Adio arian o'r un uned.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
**enquiries@nationalnumeracy.org.uk**

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Amcangyfrif amser

Pecyn Mathemateg Teulu

**Ym mhob colofn, disgrifiwch wahanol bethau a wnewch yn y cartref - gan gynnwys gymaint o'ch teulu â phosib i lenwi pob colofn (heb anghofio anifeiliaid anwes!).**

| 5-10 munud | Tua 30 munud | Tua 1 awr | Mwy nag 1 awr |
|---|---|---|---|
| | | | |

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Gweithio gyda, ac adnabod ysbeidiau amser i'r 5 munud agosaf.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
**enquiries@nationalnumeracy.org.uk**

**familymathstoolkit.org.uk**


Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669


National Numeracy
Getting on with numbers


# Siapiau 3D


Pecyn Mathemateg Teulu


**Dowch o hyd i wahanol bethau o gwmpas y tŷ sy'n siapiau 3D a gweld faint o siapiau 2D sydd arnynt. Er enghraifft mae can o gaws yn silindr ac mae ganddo 2 gylch, un ym mhob pen, ac mae'r canol yn hirsgwar.**



**Ciwb**


**Prism triongl**


**Côn**


**Ciwboid**


**Silindr**


**Tetrahedron**

Faint ddaethoch chi o hyd iddynt?

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Adnabod siapiau 2D ar wyneb siapiau 3D, er enghraifft cylch ar silindr a thriongl ar byramid.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Llythrennau cymesur

Pecyn Mathemateg Teulu

**Meddyliwch am y priflythrennau hyn – M,A,T,H**

Dychmygwch eu bod wedi eu gwneud o gerdyn ac yn fflat ar y bwrdd o'ch blaen. Dychmygwch dorri pob llythyren yn ei hanner – rhaid i'r ddau hanner fod yn gymesur – sy'n union yr un fath ar bob ochr. Pa lythrennau sy'n gymesur?

Rŵan dychmygwch briflythrennau eich enw allan o gerdyn. Pa lythrennau sy'n gymesur? A oes gan rywun yn eich teulu enw heb unrhyw lythrennau cymesur?

**Her:** Allwch chi feddwl am enw gyda llythrennau cymesur yn unig?

**Gair o gyngor:** Os gallwch dynnu llun a / neu dorri'r llythrennau allan, bydd yn haws.

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Adnabod a disgrifio cymesuredd.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Coblynnod Nadolig

Pecyn Mathemateg Teulu

**Mae Mrs Corn wedi gwneud dillad Nadolig newydd i dri o'r coblynnod yn y gweithdy. Mae gan bob gwisg drowsus, siaced a het yn matshio.**

**Roedd un wisg yn goch i gyd, un yn wyrdd i gyd ac un yn felyn i gyd. Roedd y coblynnod wrth eu boddau â'u nhw ond yn penderfynu y byddai'n hwyl gwisgo gwahanol wisg bob dydd am gymaint o ddiwrnodau â phosib. Felly cytunodd y tri i gyfnewid rhannau o'u gwisgoedd nes eu bod wedi rhedeg allan o gyfuniadau newydd.**

Am faint o ddiwrnodau wnaeth hyn bara?



**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Datrys problemau drwy ddod o hyd i'r holl bosibiliadau.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
**enquiries@nationalnumeracy.org.uk**

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Defnyddio arwyddion mathemateg

Pecyn Mathemateg Teulu

**Mae pawb yn gwybod bod = yn golygu cyfartal / hafal neu'r un gwerth.**

Mai < yw llai na, a > yw mwy na.
Meddyliwch am ffyrdd o ddefnyddio < a >


Dowch o hyd i bethau yn y tŷ neu'r ardd i'w cymharu.


Cofnodwch eich syniadau fel hyn:

- Dail ar y goeden > petalau ar blanhigyn
- Oed plentyn < oed athro

Faint o enghreifftiau allwch chi feddwl amdanynt?

**Her:** Allwch chi ddod o hyd i rywbeth yn y tŷ sy'n gyfartal / hafal?





**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Cymharu rhifau'n defnyddio =, < a >

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
**enquiries@nationalnumeracy.org.uk**

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Rhifau ffôn

Pecyn Mathemateg Teulu

**Gallwch adio'r digidau mewn rhif ffôn i wneud cyfanswm.**


**Beth yw'r cyfanswm mwyaf allwch chi ddod o hyd iddo?**

Beth y mae'r digidau yn rhif ffôn eich tŷ chi'n adio iddo?

Gwnewch hyn gyda rhifau'r teulu i gyd. Chwiliwch mewn papurau newydd a chylchgronau – pa un sy'n adio i roi'r cyfanswm mwyaf?

**Her:** Mae'r rhan fwyaf o rifau symudol yn dechrau gyda 07 – pa ddigidau fyddai'n dilyn i wneud y rhif mwyaf posib?

**Gair o gyngor:** Mae gan bob rhif symudol 11 digid. Adiwch 2 neu 3 rhif ar y tro i'w gwneud yn haws; rhannwch y dasg gydag eraill.



**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Cysylltiad Cwricwlwm: Ymarfer adio i ddod yn fwy rhugl.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at: enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669


National Numeracy
Getting on with numbers

# Rhannu'r pitsas

Pecyn Mathemateg Teulu

**Mewn pryd teuluol, mae 3 pitsa a 4 o bobl i'w rhannu.**
**Mae'r pitsas i gyd yn rhai caws.**

Mewn faint o wahanol ffyrdd allwch chi eu rhannu fel bod pawb yn cael yr un faint?



**Her:** A fyddai'n wahanol pe bai un pitsa'n gaws, un yn ham ac un yn gorgimwch? Sut fyddech chi'n eu rhannu wedyn?

**Gair o gyngor:** Gall tynnu llun y pitsas helpu i'w gweld yn iawn – trafodwch y pitsas mewn ffracsiynau.

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Adnabod, dod o hyd i, enwi ac ysgrifennu ffracsiynau o siapiau, cyfres o eitemau neu feintiau; adnabod bod dau chwarter a hanner yn gyfartal.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers


# Yn y siop anifeiliaid anwes

Pecyn Mathemateg Teulu

**Mae Pero'n gi mawr ac mae angen gwely newydd a bag bwyd arno.**



| Yn y siop | Gwely | Bowlen yfed | Tegan | Bowlen fwyd | Tennyn | Bag bwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ci mawr** | £30 | £10 | £15 | £14 | £25 | £50 |
| **Ci bach** | £20 | £8 | £12 | £10 | £15 | £30 |



Faint fydd hyn yn ei gostio yn y siop anifeiliaid anwes?
Os yw hefyd yn prynu tennyn newydd, a fydd y cyfanswm dros £100?

**Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:**
**enquiries@nationalnumeracy.org.uk**

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

Ci bach ifanc yw ei ffrind Mot. Dim ond £50 sydd ganddo i'w wario – beth allai ei brynu?

Mae angen bag newydd o fwyd ar gi bob tri mis. Faint fydd hyn yn ei gostio i Pero am flwyddyn?

Wyddoch chi am unrhyw anifeiliaid anwes? Allwch chi ddod o hyd i rai o'u costau? (Os na wyddoch am rywun gydag anifail anwes – beth fyddech chi'n hoffi ei gael, dychmygwch beth fyddai ei angen arnynt).





**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Adio arian yn defnyddio £; ysbeidiau amser.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk



Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Misoedd y flwyddyn

**Pecyn Mathemateg Teulu**

***Tri-deg sydd ym Medi dilin, Ebrill, Tachwedd a Mehefin, Wyth-ar-hugain ym mis Chwefror Blwyddyn naid bydd un yn rhagor, Pob mis arall yn y flwyddyn Tri-deg un heb os sydd ynddyn.***



Defnyddiwch galendr neu ddyddiadur i drafod:

1. Ym mha fis y mae dy ben-blwydd? Faint o ddiwrnodau sydd yn y mis hwnnw?
2. Dowch o hyd i fisoedd pen-blwyddi eich teulu – pwy sy'n cael ei ben-blwydd yn y mis hiraf?
3. Faint o ddiwrnodau tan y gwyliau ysgol nesaf?
4. Chwefror yw'r mis byrraf – oes rhywbeth arbennig yn digwydd yn Chwefror?
5. Beth yw'r peth nesaf cyffrous ar y calendr?
6. Ydych chi'n gwneud rhywbeth arbennig ar yr un diwrnod bob wythnos? Faint o weithiau wnewch chi hyn ym mis Mawrth?




**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Cymharu ysbeidiau amser a'u rhoi mewn trefn / dilyniant.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
**enquiries@nationalnumeracy.org.uk**

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Amseroedd o gwmpas y tŷ

Pecyn Mathemateg Teulu

**Faint o bethau allwch chi ddod o hyd iddynt yn y tŷ sy'n dangos yr amser? Ydyn nhw i gyd yr un fath?**



Ydych chi'n gweld amseroedd pethau pan fyddwch o gwmpas y lle? Ble?

Edrychwch ar amserlen deledu – welwch chi amseroedd? Pa raglen deledu yw'r hiraf heddiw?

Pa mor hir yw eich hoff raglen?





**Sylwadau teulu:**

| |
|---|
| |

**Sylwadau plentyn:**

| |
|---|
| |

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Dweud ac ysgrifennu'r amser i'r 5 munud agosaf.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Diwrnod crempog

Pecyn Mathemateg Teulu

**Ar Ddydd Mawrth Ynyd, mae'n arferol gwneud crempog. Weithiau gallwch eu bwyta gyda siwgr a lemon, dro arall gyda thriog neu jam.**



Gall crempog fod o wahanol faint. Pe byddai'n rhaid rhannu un, beth yw'r crempog lleiaf allech chi ei wneud i'r teulu i gyd gael darn. Defnyddiwch gylch papur os na allwch wneud crempog!

Beth yw'r un fwyaf allech chi ei wneud? Mesurwch ddiamedr y crempog – ar draws y canol o ymyl i ymyl. Beth sy'n grempog maint da i un person? Pa faint crempog allech chi ei wneud i un o'ch tedis?



**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Defnyddio unedau safonol priodol i gymharu hydoedd a'u rhoi mewn trefn.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
**enquiries@nationalnumeracy.org.uk**

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669


National Numeracy
Getting on with numbers

# Tangramau Tsieineaidd

Pecyn Mathemateg Teulu

**Math o bos sy'n boblogaidd yn Tsieina yw tangram.**

Pa siapiau sydd yn y darnau tangram?



Rhowch gynnig ar ddefnyddio'r siapiau syml yn y templed tangram i wneud llun (torrwch allan yn ofalus).


Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

Dyma gath fel enghraifft, Allwch chi wneud anifeiliaid neu bethau eraill o'r darnau tangram?



**Gair o gyngor:**
Siaradwch am nifer yr ochrau o bob siâp, nifer yr onglau (corneli).

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Trin ac enwi amrywiaeth o siapiau 2D a'u hadnabod ar sail eu nodweddion.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
**enquiries@nationalnumeracy.org.uk**

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669


National Numeracy
Getting on with numbers

# Patrymau brithwaith

Pecyn Mathemateg Teulu

**Pa rai o'r siapiau hyn sy'n brithweithio? Brithweithio yw ffitio wrth ymyl ei gilydd heb le rhyngddynt.**

Dowch o hyd i bethau yn y tŷ o'r siâp hwn, neu gallech dynnu llun y siapiau a'u torri allan. Adiwch dic neu groes i ddangos os ydyn nhw'n brithweithio.



Beth sydd gan y siapiau brithwaith yn gyffredin? Pa siapiau sydd ddim yn brithweithio? Pam felly? Tynnwch lun a lliwiwch eich patrwm brithwaith eich hun. Allech chi ddefnyddio mwy nag un siâp?

**Her:** Ble allech chi ddefnyddio patrwm siâp brithwaith mewn bywyd pob dydd?

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Cymharu a dosbarthu siapiau geometrig ar sail eu nodweddion a gweithio gyda phatrymau siapiau.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk



Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers


# Cymesuredd wyau Pasg

Pecyn Mathemateg Teulu

**Mae gan bapur lapio wyau Pasg batrymau cymesur yn aml. Weithiau maen nhw'n defnyddio siapiau mathemategol i greu'r patrymau.**

Allwch chi ddylunio papur lapio wy'n defnyddio gwahanol siapiau a lliwiau – a'i wneud yn gymesur!

Allwch chi dynnu llun hanner patrwm cymesur, ar gyfer wy, a gofyn i rywun yn eich teulu ei orffen? Peidiwch ei wneud yn rhy anodd!



**Gair o gyngor:** Siaradwch am ba siapiau a ddefnyddiwyd a'u gogwydd.

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Gweithio gyda phatrymau siapiau, gan gynnwys rhai o wahanol ogwydd.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Gwir neu anwir

Pecyn Mathemateg Teulu

**Cymrwch o yn eich tro i ddarllen y brawddegau hyn a dweud ydyn nhw'n wir neu'n anwir.**

Mae dau yn fwy na thri'n 6.

Mae Sali'n 15 a Daniel yn 7. Y gwahaniaeth rhwng eu hoed yw 8.

Mae 6 o bobl ar fwrdd coch, 3 ar un gwyrdd a 4 ar un glas. Mae 15 o bobl i gyd.

Roedd 12 o bobl ar y bws. Aeth 4 i ffwrdd. Roedd 8 ar ôl ar y bws.

Mae 15 o fisgedi yn y paced. Mi wnes i fwyta 5 ar ôl cinio. Roedd 11 ar ôl.

Mae gan athrawes 15 o sticeri. Mae'n rhoi 3 i'r plant. Mae ganddi 10 ar ôl.

The total of 4, 5 and 3 is 12.

**Her:** Meddyliwch am 3 brawddeg arall i'w hymarfer ar y teulu. Rhaid i chi wybod beth yw'r ateb i wybod ydyn nhw'n gywir!

**Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at: enquiries@nationalnumeracy.org.uk**

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

Mae 22 o blant yn y dosbarth piws. Ar ddydd Llun, roedd 3 o blant yn absennol. Roedd 19 yn yr ysgol.

Rydw i'n rhannu 8 o felysion yn gyfartal rhwng fy 2 ffrind. Mae ganddyn nhw 5 yr un.

Mae 12 o siocledi mewn bocs. Fe wnes i fwyta chwech ohonyn nhw. Mae 6 ar ôl.

Mae 5 cath fach mewn basged. Mae 2 yn neidio allan. Mae 4 ar ôl yn y fasged.

Mae gen i 10 o felysion. Rydw i'n rhoi 3 i fy ffrind. Mae gen i 6 ar ôl.

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Datrys problemau geiriau gan ddefnyddio adio a thynnu, a rhesymu i gyfiawnhau ateb.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
**enquiries@nationalnumeracy.org.uk**

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Cyflwyno'r Faner

Pecyn Mathemateg Teulu

**Pan fydd Cyflwyno'r Faner yn digwydd yn Llundain, mae'r gwarchodlu i gyd yn ymarfer yn hir bod mewn rhesi syth o flaen y Brenin. Dyma lun o ddim ond un gatrawd. Allwch chi amcangyfrif faint o filwyr sydd yma?**



Os ydyn nhw'n sefyll mewn rhesi o 10, faint o resi fyddai catrawd o 200 o filwyr? Rhaid i'r ceffylau gael eu hyfforddi. Mewn un grŵp mae 30 o geffylau ar barêd. Faint allai fod ym mhob rhes o geffylau?

**Her:** Mae 40 o gerddorion yn chwarae. Allwch chi feddwl am 4 gwahanol ffordd y gallent drefnu eu hunain?

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Amcangyfrif, datrys problemau'n defnyddio ffeithiau lluosi a rhannu o dablau 2, 5 a 10 (gan ddechrau defnyddio 3, 4, 6 ac 8).

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers


# Haneri

**Pecyn Mathemateg Teulu**

**Allwch chi blygu darn o bapur i ddangos gwahanol haneri?**
Dyma ddwy enghraifft i ddechrau:




Trafodwch pam fod y rhain yn dangos haneri:



Allwch chi dynnu llun haneri cyrliog?

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Datrys problemau'n defnyddio siâp ac adnabod hanner a meintiau cyfwerth.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

**familymathstoolkit.org.uk**


Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Chwarteri o gylchoedd

Pecyn Mathemateg Teulu

**Dowch o hyd i gylchoedd papur o wahanol faint (gallwch dynnu amlinell o gwmpas pethau fel caniau neu gaeadau a'u torri allan).**



1. Plygwch i ddod o hyd i chwarter (1/4) neu gylchoedd o wahanol faint.
2. Beth sydd yr un fath? Beth sy'n wahanol?
3. Sut allwch chi ddod o hyd i dri chwarter (3/4)?
4. Beth fyddai 5 chwarter (5/4) yn edrych fel?
5. Sut fyddech chi'n dod o hyd i ¼ darn o gortyn?



**Her:** Beth am ¼ dau ddarn o gortyn? tro hwn?

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Dod o hyd i ffracsiynau siapiau a mesurau; cwrdd â ¾ fel ffracsiwn di-uned; dechrau cyfrif mewn ffracsiynau.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Tabledi anifeiliaid

Pecyn
Mathemateg
Teulu

## Mae gan filfeddyg broblem – mae'n cael trafferth meddwl beth yw haneri – allwch chi helpu?

Mae ganddo 3 paced o 5 o dabledi cath. Nid yw'n gwybod a oes digon i'r cathod sydd yn ei filfeddygfa'r diwrnod hwnnw. Mae cathod yn cael tabledi yn ôl faint y maen nhw'n ei bwyso. Defnyddiwch y tabl hwn i'ch helpu i gyfrifo'r atebion.

| Cath yn pwyso | Nifer y cathod | Faint o dabledi'r un |
|---|---|---|
| 0kg – 1kg | 2 | ½ |
| 1kg – 2kg | 3 | 1 |
| 2kg – 3kg | 1 | 1 ½ |
| 3kg – 4kg | 2 | 2 |
| 4kg – 5kg | 3 | 2 ½ |

**Her:** Os oes angen 3 tabled ar gath sy'n pwyso 10kg, faint allai fod ei angen ar lew gwryw oedolyn sy'n pwyso 200kg!



Faint o bacedi sydd ei angen ar y milfeddyg? Oes ganddo ddigon?

**Gair o gyngor:** Torrwch gylchoedd bach papur fel tabledi – gallwch yna eu torri yn eu hanner i wneud y gwaith cyfrifo'n haws.

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Defnyddio mesuriadau safonol priodol i gymharu pwysau (g/kg) a rhoi pwysau mewn trefn; datrys problemau gyda haneri; gwella sgiliau amcangyfrif.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Cŵn

Pecyn Mathemateg Teulu

Pa un o'r cŵn yma yw'r trymaf?


Pa un yw'r ysgafnaf?

Ydych chi'n pwyso mwy na'r ysgafnaf?
I ba gi ydych chi agosaf mewn pwysau?

Allwch chi roi'r cŵn mewn trefn gan ddechrau gyda'r ieuengaf?

Pa gŵn sy'n hŷn na chi?



| | |
|---|---|
|  | Bugeilgi Almaenig<br>3bl 2 fis<br>26kg |
|  | Cyfeirgi Coch<br>5bl 8 mis<br>24kg |
|  | Ci bach Labrador<br>0bl 2 fis<br>4kg |
|  | Bocsar<br>8bl 11 mis<br>30kg |
|  | Jack Russell<br>12bl 9 mis<br>6kg |

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
**enquiries@nationalnumeracy.org.uk**

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Cŵn

Pecyn Mathemateg Teulu

Meddyliwch am gwestiynau am oed a phwysau'r cŵn.

Cofiwch wybod beth yw'r atebion!





**Her:** Os oes gennych anifeiliaid anwes, rhowch nhw mewn trefn yn ôl oed. Os nad oes, rhowch ben-blwydd i'ch teganau meddal a'u rhoi mewn trefn oed.

*Wedi'i addasu o 'Real life problems for 7-11 year olds' gan y Dogs Trust.*

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Cymharu a rhoi màs mewn trefn, yn defnyddio unedau safonol priodol; cymharu ysbeidiau amser.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Meddyginiaeth milfeddyg

Pecyn Mathemateg Teulu





**Mae potel o feddyginiaeth yn dal 50ml. Mae angen 5ml y dydd ar gath, 4ml y dydd ar gwningen, 20ml y dydd ar gi, 30ml ar geffyl, 2ml ar fochyn bochdew, 25ml ar arf a 2ml ar genau goeg.**

Pa mor hir fyddai potel yn para i bob anifail?

Dychmygwch eich bod yn filfeddyg, pa anifeiliaid sydd gennych yn y filfeddygfa ar y funud?
Gallech hefyd gael anifeiliaid sw mawr!
Faint o feddyginiaeth fyddai ei angen arnoch?

Allwch chi ddod o hyd i botel yn eich tŷ sy'n dal 200 ml neu'n agos i hynny?
Ar gyfer beth mae'n cael ei ddefnyddio?
Defnyddiwch < (llai na); > (mwy na) neu = (hafal).
Er enghraifft; potel o sôs coch > 200 ml.
Pa mor hir ydych chi'n meddwl y bydd yn para i'ch teulu?





**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Defnyddio unedau safonol priodol i amcangyfrif, mesur, cymharu a rhoi capasiti (l/ml) mewn trefn.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669


National Numeracy
Getting on with numbers

# Pileri Islam - gweddïau

Pecyn Mathemateg Teulu

**Mae Mwslemiaid yn credu bod Duw wedi gorchymyn iddynt weddïau ar 5 gwahanol amser o'r dydd:**

| | |
|---|---|
| Salat al-fajr: | gwawr, cyn i'r haul godi |
| Salat al-zuhr: | ganol dydd, ar ôl i'r haul fod ar ei uchaf |
| Salat al-'asr: | hwyr y prynhawn |
| Salat al-maghrib: | ychydig ar ôl machlud |
| Salat al-'isha: | rhwng machlud a hanner nos |




Ers talwm, roedd pobl yn defnyddio'r haul i wybod pryd oedd yr amser gorau i weddïo. Heddiw mae'r amseroedd yn cael eu cyfrifo a'u rhannu felly maen nhw'n gweddïo ar yr un amser. Mae hyn yn newid gyda'r haul a'r tymhorau drwy'r flwyddyn.

**Her:** Sut fyddai hyn yn wahanol yn y gaeaf?

Allwch chi gyfrifo amseroedd a fyddai'n cyfateb i'r amseroedd o'r dydd y dylai Mwslemiaid weddïo, ar gyfer ble'r ydych yn byw yn yr haf.

**Gair o gyngor:** Efallai y bydd angen i chi feddwl am amseroedd y wawr a'r machlud.

**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Gwybod faint o funudau sydd mewn awr a faint o oriau sydd mewn diwrnod; dweud ac ysgrifennu'r amser i'r 5 munud agosaf.



Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Ysgwyd llaw

Pecyn Mathemateg Teulu

**Os yw pawb yn eich teulu'n ysgwyd llaw gyda phawb arall – unwaith ac unwaith yn unig – faint o ysgwyd llaw fyddai wedi bod?**

Os nad oes llawer o bobl yn eich cartref, gallech adael i dedi-bêr (neu ddau) ymuno?

Sut allech chi ddangos hyn?



**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Gofyn ac ateb cwestiynau syml drwy gyfrif a didol; trefnu a chofnodi'r wybodaeth.


Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk


familymathstoolkit.org.uk


Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669


National Numeracy
Getting on with numbers

# Yn y sŵ

Pecyn Mathemateg Teulu

**Yn y sŵ, mae llawer o wahanol fathau o anifeiliaid. Mae gan rai 2 goes, rhai 4 coes, rhai mwy na 4 coes a rhai heb goesau o gwbl!**




Allwch chi a'ch teulu feddwl am anifeiliaid sŵ yr ydych yn eu hoffi.


Cyfrwch faint sy'n ffitio i bob grŵp yn ôl faint o goesau sydd ganddynt.

Gallech dynnu llun, pictogram, siart cadw cyfrif, siart bariau neu dabl.

Allwch chi feddwl am anifail i bob grŵp?

Pa grŵp oedd â'r mwyaf o anifeiliaid?

**Her:** Faint yn fwy oedd â 4 coes o'i gymharu â dim coesau?



**Sylwadau teulu:**

**Sylwadau plentyn:**

**Cysylltiad Cwricwlwm:**

Coladu, trefnu a chymharu gwybodaeth yn defnyddio siartiau cadw cyfrif, pictogramau, diagramau blociau neu dablau syml.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at: enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Atebion i Weithgareddau Bl.2

Pecyn Mathemateg Teulu


## Lluosi cŵn bach
- 40 coes
- 10 trwyn
- 20 clust
- 5 cynffon
- 20 coes
- 10 llygad
- 40 ewin

## Rhannu fferins
- 5 yr un (cymysg) **neu** 2 taffi, 1 siocled, 1 loli'r un (2 loli ar ôl) **neu'r** un fath gyda ½ loli'r un
- Byddai – 3 loli, 2 siocled a 5 taffi

## Llythrennau cymesur
M A T H

## Swyn y wrach
16 o bosibiliadau
- 3PC
- 6GG
- 12Y
- 2PC + 2GG
- 2PC + 1GG + 2Y
- 1PC + 4GG
- 1PC + 3GG + 2Y
- 1PC + 2GG + 4Y
- 1PC + 2GG + 6Y
- 2PC + 4Y
- 1PC + 8Y
- 5GG + 2Y
- 4GG + 4Y
- 3GG + 6Y
- 2GG + 8Y
- 1GG + 10Y

## Coblynnod Nadolig
27 o bosibiliadau



Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Atebion gweithgareddau'r Gwanwyn Bl.2

Pecyn Mathemateg Teulu

**Yn y siop anifeiliaid anwes**
£80
Bydd - £105
Opsiynau
£200



Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
**enquiries@nationalnumeracy.org.uk**

**familymathstoolkit.org.uk**

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers

# Atebion gweithgareddau'r Haf Bl.2

Pecyn Mathemateg Teulu

## Cŵn

- Bugeilgi Almaenig
- Ci bach Labrador
- Ydw
- Ci bach Labrador – Bugeilgi Almaenig – Cyfeirgi Coch – Bocsar - Jack Russell


## Cyflwyno'r Faner

- Amcangyfrif rhwng 200 a 500 yn rhesymol
- 20
- 30: 3 rhes o 10, 10 rhes o 3, 6 o 5, 5 o 6, 15 o 2, 2 o 15, 1 o 30, 30 o 1
- 20: 2 rhes o 10, 10 o 2, 4 o 5, 5 o 4, 1 o 20, 20 o 1

## Tabledi anifeiliaid

Mae angen 4 paced arno (17 o dabledi); nid oes ganddo ddigon.
Mae angen 60 tabled ar y llew.

## Haneri




Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

National Numeracy
Getting on with numbers